ColegauCymru
CollegesWales

4 Rhagfyr 2020

Annwyl Gydweithiwr,

**Cyfnod ffyrlo ColegauCymru**

Bydd ColegauCymru yn gweithredu cyfnod o ffyrlo llawn ar gyfer y tîm cyfan o **ddydd Iau 10 Rhagfyr 2020 i dydd Llun 18 Ionawr 2021**.

Yn ystod y cyfnod hwn ni fydd staff ColegauCymru yn gallu gweithio ac felly ni fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau arferol nac yn ymateb i unrhyw ymholiadau a dderbynnir.

Oherwydd natur yr adeg o'r flwyddyn, credwn fod y penderfyniad i roi ein staff ar absenoldeb ffyrlo dros gyfnod cyffredinol tawel y Nadolig yn golygu y bydd yr anghyfleustra lleiaf yn cael eu teimlo gan ein rhanddeiliaid. Mae'r cyfnod hefyd yn cynnwys ffenestr pythefnos lle byddai ColegauCymru fel arfer yn cau ei drysau ar gyfer gwyliau'r Nadolig.

O 18 Ionawr 2021, byddwn yn ailddechrau gwasanaeth cyfyngedig wrth i ni gymryd rhan mewn rhaglen ffyrlo hyblyg am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021.

Ymddiheurwn yn ddiffuant am unrhyw anghyfleustra y gallai hyn ei achosi i chi a'ch sefydliad ac yn eich annog i gysylltu â mi gydag unrhyw bryderon a allai fod gennych mor fuan â phosib.

Yr eiddoch yn gywir,

Iestyn Davies
**Prif Weithredwr**

Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff
CF15 7AB